

## Cofion

Parhawn i gofio yn ein gweddïau am y rhai sydd mewn anhwylder y dyddiau hyn gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd. Cofiwn yn arbennig am Richard M. Jones (Cefn Berain) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y mae Dilys Jones (Nantglyn) yn yr Inffirmari. Treuliodd Wil Davies (Saron) noson yn yr ysbyty hefyd yn dilyn anffawd a thorri ei goes. Gweddiwn y bydd Duw yn ei ddaioni yn gwarchod drosoch chi ac eraill o'n plith sydd wedi cael amrywiol driniaethau yn ddiweddar, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n aros llawdriniaethau. Anfonwn ein cofion atoch i gyd a dymunwn adferiad iechyd buan iawn i chi.

### Casgliad Arbennig i Wcráin

Anodd iawn fu gweld yr argyfwng yn Wcráin yn dwysáu dros y dyddiau diwethaf. Gwelwyd lluniau dirdynnol o bobl yn ffoi gan adael eu cartrefi a'u heiddo wrth geisio lloches mewn gwledydd cyfagos. Gwyddom fod nifer ohonoch eisoes wedi cyfrannu mewn amrywiol ffyrdd, ond os oes eraill yn dymuno cyfrannu'n ariannol, gallwch wneud hynny ar-lein (anfonwch neges i Mair i gael y manylion banc) neu gallwch anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' gydag 'Wcráin' wedi ei ysgrifennu ar y cefn **cyn diwedd Mawrth, os gwelwch yn dda**. Ein bwriad yw trosglwyddo'r arian i DEC (Disasters Emergency Committee) er mwyn sicrhau bod yr arian yn darparu cymorth uniongyrchol i'r rhai mewn angen.

### Apêl am fwyd i Wcráin

Mae gan feddyg o'r Wcráin sy'n gweithio yn Ysbyty Glan Clwyd gyswllt â theulu merch o Lansannan ac mae'n bwriadu anfon nwyddau i'r Wcráin dros yr wythnosau nesaf gan fod yno wir angen am fwyd – yn arbennig bwydydd sych a bwydydd tun. Os oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu, bydd bocys yng nghyntedd y capel yn Llansannan dydd Sul, neu mae croeso i chi adael y nwyddau yn Heulfryn neu yn Siop y Llan yn ystod yr wythnos. Bydd y nwyddau'n cael eu casglu pnaun dydd Gwener, Mawrth 18fed. Enghreifftiau o fwydydd addas fyddai:

- Bwyd sydyn (*instant*) – nwdls, reis, pasta...
- Pacedi o gnau
- Bariau ynni
- Bwydydd mewn tun
- Bariau siocled
- Bagiau te
- Siwgr
- Coffi sydyn (*instant*)
- Bariau grawnfwyd
- Pasta
- Pacedi o ffrwythau wedi sychu
- Couscous

Diolch am eich cefnogaeth.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (23<sup>ain</sup>), os gwelwch yn dda.

# Llais Bro Aled



Dydd Sul, 13 Mawrth 2022

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Profiad dirdynnol yw clywed y newyddion am y gyflafan sy'n digwydd yn Wcráin. Mae gweld y dinistr y mae rhyfel yn ei achosi yn ysgwyd rhywun gan ein gorfodi i ofyn cwestiynau caled amdanom fel dynoliaeth. Ond dydy'r cwestiynau yma ddim yn rhai newydd. Yn ddiweddar gwelais gyfweiliad gyda chyn arweinydd yr Undeb Sofietaidd, Mikhail Gorbachev, pan ofynnwyd iddo sut yr oedd o'n asesu pa mor ddiogel yw'r byd? Rhybuddiodd bod y byd cyfan mewn perygl enfawr tra mae arfau niwclear ar gael a phobl ddrygionus yn sôn am eu defnyddio. A dyna'n sefyllfa ni ar hyn o bryd.

Dwi'n siŵr fod llawer o bobl yn tybio bod materion fel hyn yn rhy ddwys i'w hystyried, ac mai'r ateb yw anwybyddu'r cyfan a chario 'mlaen hefo'n bywydau. Ond nid dyna'r ffordd y gwnaeth yr Arglwydd Iesu baratoi ei ddisgyblion at y dyfodol. Ac nid felly mae Cristnogion wedi dyfalbarhau trwy gyfnodau mwyaf ansefydlog a brawychus hanes ychwaith. Yn Mathew 23:44, gwelwn Iesu'n rhybuddio'i ddisgyblion i beidio bod yn ddifeddwl gan fod diwedd y byd yn dod. Roedd am wneud yn siŵr eu bod yn barod: *'Felly rhaid i chi hefyd fod yn barod drwy'r adeg. Bydda i, Mab y Dyn, yn cyrraedd pan fyddwch chi ddim yn disgwyl!'* A'r ffordd i fod yn barod am ailddyfodiad Iesu neu ddiwedd ein bywyd daearol? Gwneud yn siŵr ein bod wedi rhoi'n ffydd ynddo Ef a'n bod yn byw yn ôl Ei orchmynion er gwaethaf y temtasiynau neu'r pwysau sydd arnom.

Mae'r Beibl yn cydnabod mor fregus yw ein bodolaeth, ac mor boenus o anwadal y gall byw mewn byd toredig fod. Ond yn wyneb hynny, nid panig nac anobaith sy'n cael ei annog ond ffydd. Mae'r Beibl yn llawn o hanesion am bobl feidrol gafodd eu cynnal wrth iddynt ddibynnu ar ffyddlondeb, gallu a chariad digyfnawid y Duw a ddaeth i'n byd yn Iesu Grist. Oherwydd aberth a buddugoliaeth syfrdanol Iesu dros farwolaeth, mae'r Cristion trwy ras yn etifeddu gobaith cadarn am fywyd tragwyddol, a thrwy hynny gallwn ddygymod â phresennol ansicr yn ôl anogaeth Pedr: *'Ond disgwyl yr ydym ni, yn ôl ei addewid ef, am nefoedd newydd a daear newydd, lle bydd cyfiawnder yn cartrefu.'* (2 Pedr 3:13)

Saif heb siglo yn dragwyddol  
eiriau yr anfeidrol Fod,  
saif ei gyngor a'i gyfamod  
pan ddatodo rhwymau'r rhod;

teyrnas ydyw na ddiflanna,  
rhodia'i deiliaid oll yn rhydd,  
a phan syrth gogoniant anian  
harddwch hon yn fwyfwy fydd.

RICHARD JONES (1772-1833) – CFF 255

*Rhodri*

## Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd un ai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad.

### Dydd Sul, Mawrth 13<sup>eg</sup>

- Oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9:30 o dan arweiniad Rhodri.
- Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10:00.
- Oedfa yng Nghefn Berain am 9:30 ac yn Groes am 11:00 o dan arweiniad Mr Gwion Dafydd.
- Ysgol Sul yn Henllan am 10:00 ac yn Llanefydd am 10:30.
- Oedfa yn Saron am 10:00 ac yn Nantglyn am 2:00 o dan arweiniad y Parch. Trefor Lewis.
- 'Gwreiddiau' – Mae gwahoddiad i ni ymuno gyda Bro Dinbych ar gyfer amser o addoliad yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Mae'n addas i bob oed, ac mae darpariaeth dwyieithog. Archebwch le trwy glicio ar y ddolen [yma](#), neu cysylltwch â Mair.

### Nos Lun, Mawrth 14<sup>eg</sup> a Phnawn Gwener, Mawrth 18<sup>fed</sup>

- 'Gweddi'r Arglwydd' – Y pedwerydd sesiwn mewn cyfres o bump astudiaeth Feiblaidd o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Gellir ymuno (ar ZOOM) naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

### Nos Fawrth, Mawrth 15<sup>fed</sup>

- Cyfarfod Blynyddol Eglwys Unedig Llansannan yn y Festri am 7:30. Croeso i bob aelod.

### Nos Iau, Mawrth 17<sup>eg</sup>

- Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yn cyfarfod yng Nghapel Mawr, Dinbych am 7:00 yr hwyr i drafod gwaith yr Henaduriaeth ac i drosglwyddo'r llywyddiaeth.

### Dydd Sul, Mawrth 20<sup>fed</sup>

- Oedfa Deulu yn Henllan am 9:30 ac yn Llanefydd am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- Oedfa i'r Daith (Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair) yn Llansannan am 10:30 o dan arweiniad Mr Gwion Dafydd.
- Oedfa'r Fro yn Llansannan am 6:00 gyda Rhodri yn pregethu.

### Dydd Sul, Mawrth 27<sup>ain</sup>

- Oedfa yn Llansannan am 9:30 ac yng Nghefn Meiriadog am 11:00 o dan arweiniad Mr Celfyn Williams.
- Oedfa Thema yn Henllan am 9:30 ac Oedfa Dydd Gweddi'r Byd yn Groes am 10.00.
- Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain ac yn Llanefydd am 10:00. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r gwasanaeth yn Llanefydd.
- Oedfa yn Saron am 10:00 ac yn Nantglyn am 2:00 o dan arweiniad y Parch. Dafydd Job.
- 'Gwreiddiau' – Mae gwahoddiad i ni ymuno gyda Bro Dinbych ar gyfer amser o addoliad yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Mae'n addas i bob oed, ac mae darpariaeth dwyieithog. Bydd manylion sut i archebu lle yn y rhifyn nesaf.

### Taith Gerdded Noddedig

Mae Evan Morgan (Llywydd Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru) yn bwriadu cerdded 70km i godi arian i Apêl Cymorth Cristnogol 2022 – 'Hadau Gobaith'. Bydd yn cerdded 5km ymhob Henaduriaeth. Os oes unrhyw un am ymuno ag ef ar y daith, bydd yn cerdded yn Nyffryn Clwyd ar Ebrill 1af. Cysylltwch â Cheryl Williams (01745 890615) am fwy o fanylion. (Neu, i gael dyddiadau gweddill y daith, cysylltwch â Mair.)

### Gŵyl Llanw 2022

Cynhelir yr ŵyl eleni yng Nghanolfan Medrus, Aberystwyth ar Ebrill 18fed-19eg. Gŵyl Gristnogol yw Llanw gyda'r pwyslais ar ddathlu'r atgyfodiad. Bydd oedfa deulu, addoliad cyfoes, pregethau a sesiynau i'r plant a'r ieuenctid. Cymraeg fydd iaith holl weithgaredd a chyfarfodydd Llanw ond bydd offer cyfieithu ar gael yn y prif oedfaon. Bydd croeso i bawb ymuno yn y cyfarfodydd. Ewch i wefan Llanw [llanw.org/llanw-22](http://llanw.org/llanw-22) i gael mwy o fanylion ac er mwyn archebu tocynnau.